# Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc am gam-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chithau'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc am gam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn dylanwadu ar ymddygiadau a helpu i'w hatal. Mae'n cynnwys eich gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac ymateb i beth maen nhw'n ei ddweud. Fel rhan o'r safon hon, efallai bydd angen hefyd i chi fynd i'r afael ag unrhyw ddatgeliad o gamdriniaeth a allai godi.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o gam-drin domestig a thrais rhywiol
2. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddatblygu mentrau sy’n anelu at godi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc
3. gyda phlant a phobl ifanc, archwilio pwnc cam-drin domestig a thrais rhywiol, ei effaith ac arwyddion o gamdriniaeth bosibl
4. cynnal trafodaethau mewn amgylcheddau diogel lle y gall plant a phobl ifanc gymryd rhan
5. rhoi arweiniad priodol i blant a phobl ifanc ar beth gallen nhw ei wneud os byddan nhw, neu eu ffrindiau, yn cael profiad o gamdriniaeth
6. defnyddio arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a’u haddasu i fodloni anghenion unigolion
7. rhoi gwybod i blant a phobl ifanc am eu hawliau i siarad â pherson annibynnol
8. rhoi gwybod i blant a phobl ifanc am bobl eraill y gall fod angen iddynt wybod am agweddau ar eu gofal
9. darparu gwybodaeth i bobl eraill pan fydd cam-drin yn cael ei ddatgelu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
10. gwerthuso sesiynau ymwybyddiaeth a gynhelir gyda phlant a phobl ifanc er mwyn nodi deilliannau a gyflawnwyd ac i lywio sesiynau yn y dyfodol
11. cynnal cofnodion cyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad
12. gweithio yn unol â phob gofyniad cyfreithiol perthnasol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol perthnasol, gan gynnwys gweithdrefnau amddiffyn a diogelu plant

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*